

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 13eg o Fehefin 2017.

- 1. Presennol:** Gwyndaf Roberts (Cadair), Hefina MW Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Nerys Williams, Barry Bracegirdle – Penygroes; Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones, Martin Williams – Talysarn; Judith Humphreys, Craig ab Iago – Cyngorwyr Sir; Arfon Hughes – Hwylusydd Tai / **Ymddiheuriadau:** Justin Davies (Penygroes) a Dafydd Thomas (Nebo).
- 2. Cyngorwyr Sir.** Cyfle i gael diweddariad gan y Cyngorwyr Sir a chyfle i rannu pryderon ac adborth. Dywedodd Judith ei bod wedi bod yn monitro'r bysiau yn parcio wrth y banciau ailgylchu ym Mhenygroes. Rhannodd wybodaeth hefyd am brosiect 'Ardal y Llechi' Ysgol Dyffryn Nantlle. Judith, plant a Julie Holland yn rhannu pamffledi baw cwn.
Roedd Craig yn gwneud ymholiadau am ddarpariaeth meddyg Cymraeg ym meddygfa Dolwenith ar ymddeoliad Dr J Morris Jones. Dywedodd hefyd fod Rhybudd ar adeilad y Quarry yn Llanllyfni o'i ddymchwel. Mae pryder yn y pentref am effaith asbestos. Dywedodd hefyd fod rhywun wedi torri I mewn I'r caban pel droed a'r ystafelloedd newid yn Llanllyfni. Craig wedi bod yn gwneud ymholiadau efo nifer o gyrff am gyflogi ieuenctid I wneud gwaith clirio ac yn y blaen yn y pentrefi – byddai hyn yn ffordd o ddysgu am gyfrifoldeb. Y Cyngorwyr cymuned yn rhannu cwynion am fin baw cwn Talysarn, a gor yrru yn Nantlle. Hefyd arwyneb newydd lon yn Nantlle ddim yn draenio ac yn erydu.
- 3. Arfon Hughes** Bydd yn trefnu erthygl yn Llew a llun o ennillydd yr wobwr raffl efo Cadeirydd y Cyngor Cymuned. Cafwyd adroddiad gynhwysfawr o'r Arolwg Anghenion Tai ac aeth arfon drwyddi mesul cymal (yr wybodaeth yn cynnwys niferoedd tai gwag, niferoedd disgyblion yn yr ysgolion ayyb). Casgliad – bod angen 26 o dai ar y safle, yn ddibynnol ar ganiatad cynllunio. Un o'r camau nesaf fydd trefnu diwrnod agored er mwyn cofrestru a rhannu diddordeb mewn cael ty mwy neu lai – un syniad oedd 'meddwl tu allan i'r boc' ac efallai cael digwyddiad fel 'house-swap'. Cynefin yn gobeithio gwneud cais cyn mis Awst i gychwyn y broses ymgynghori a bydd cyfle i'r Cyngor Cymuned fynegi barn cyn unrhyw gais cynllunio. Rhoddwyd enw Elliw Guner o Adran Tai Gwag Cyngor Gwynedd yn enw cyswllt ar gyfer cymorth gyda thai gwag. Diolchodd OP Huws i Arfon am y ddogfen, a bod hon yn un bwysig iawn i'r Dyffryn. Cafwyd cyfle i holi Arfon.
- 4. Cyfethol.** OP Huws yn cynnig a Harry yn eilio cyfethol Martin yn ol i gynrychioli Talysarn a Ffion i gynrychioli Nantlle. Cynnigwyd enw Dylan Herbert i gynrychioli Penygroes a Dafydd Wyn Jones i gynrychioli Talysarn. Pawb yn cytuno.
- 5. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** OP Huws – materion parcio. Ni gymrodd y Cyngorwyr sir unrhyw ran yn y drafodaeth na phleidleisio ar geisiadau cynllunio.
- 6. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Mai.** Hefina yn cynnig cywirdeb cofnodion Mai a Barry yn eilio.
- 7. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Mainc Llanllyfni – chwilio am rywun i'w thrwsio.
- 8. Taflen Ariannol a Chyllid.** Taenlenni a dogfennau ariannol gan yr Archwilydd Mewnol.
- 9. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio.** Pryderon am gymhlethdod gweinyddu cytundeb ar y cyd. Cytuno mewn egwyddor symud ymlaen ac edrych ar yr opsiynnau. Penderfynwyd y byddwn yn gyrru tendr ein hunain yn gyntaf ac wedyn ar y cyd er mwyn cymharu prisiau a gweld beth fyddai'r gwerth gorau – symud ymlaen a gweld sut mae ymateb y contractwyr.
OP Huws yn adrodd yn ol o gyfarfod gyda Dafydd Watts – Swyddog Ynni – Safle Trem yr Wyddfa yn rhy fach i gynllun solar o'r fath. Edrych ar yr ystad ddiwydiannol – holi am felinau gwynt (drwy Judith), a D Watts yn ymchwilio I grantiau ac yn holi busnesau lleol.
- 10. Cynllunio:** C17/0336/22/CR Gwelliannau i dy annedd – Gwyndy, Ffordd Rhedyw, Llanllyfni – dim gwrthwynebiad.
C17/0437/22/LL Gosod mast telathrebu – tir ger 'Penygroes Telephone Exchange' – dim gwrthwynebiad gan fod angen y gwasanaeth yn yr ardal.
C17/0425/22/LL – Rhybudd o flaen llaw i ddymchwel Quarryman's Arms, Llanllyfni – dim gwrthwynebiad.
C17/0455/22/LL – Creu mynediad i bwll tywod a graean Cae Efa Lwyd, Penygroes (ac ebost cysylltiedig) – gwrthwynebu oherwydd yr effaith ar drafndiaeth a diogelwch y ffordd ar Allt Goch.

11. **Gohebiaeth.**

Cyngor Gwynedd: Ymatebion priffyrdd – Hafod Unos – rhaid nodi fod y fynedfa wedi ei lledu dros y ffin sy'n eiddo I Gyngor Gwynedd; B4418 Talysarn – lladd y chwyn ar raglen waith Cyngor Gwynedd; Pont droed Nantlle – wedi ei thrwsio; Bro Silyn arwydd arwyneb anwastad – Cyngor Gwynedd am osod yr arwydd; Trwydded co-op – y cais am drwydded I'r safle newydd yr un oriau a'r drwydded I'r siop bresennol; Ymateb I'r llythyr at y prif lyfrgellydd parthed oriau agor llyfrgell Penygroes – darllenwyd yr ymateb.

*Gwaharddiad traffic dros dro – ail rybudd Ffordd Coed Madog. Er gwybodaeth.

*Gwaharddiad traffic dros dro – Ffordd Rhiwlas, Talysarn. Er gwybodaeth.

Arall:

*Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru. Derbyn.

*Un Llais – Amgylchedd Hanesyddol. Derbyn.

*Bwletin Un Llais Mai 2017. Er gwybodaeth.

*Ffynnonellau Arian – Un Llais. Er gwybodaeth.

*Eglurhad cyfieithu dogfennau archwilio Cymru. Nid yw'n ofynnol cyfieithu dogfennau i Saesneg.

*Seminarau – Un Llais Er gwybodaeth.

*Digwyddiad ar y Cyd – Un Llais a'r SLCC 12/7/17. Er gwybodaeth.

*Cwyn parthed Japanese Knotweed – B4418. Cyngor Gwynedd wedi ymateb i'r gwyn.

*Datgwiad Bwrdd Iechyd.

*Diwrnod 'Hedfan y Barcud'

*Parc Cenedlaethol – Coed afal am ddim. Gwneud cais am y coed afal a'u rhoi i'r ysgolion cynradd lleol.

*Model Brotocol Datrysiaidau Lleol ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned. Penderfynwyd mabwysiaidau ar y ffurf hon.

*Cynnal Cymru – newyddlen Mai. Er gwybodaeth.

12. **Materion Pentrefi :** **Penygroes** Diweddariad safle ger Trem yr Wyddfa (OP) – gweler eitem 9. Twll drwg ar y ffordd ar gyffordd Talysarn wrth adeilad Tai Eryri, ac hefyd manols dwr yn yr un ardal angen sylw; tyllau ar Hen Lon. **Talysarn** Bin baw cwnn angen eu gwagio yn gyffredinol – tu ol I tai'r henoed yn Gloddfa Glai; Llwybr 15 angen ei thorri – mwd ar y llwybr oherwydd fod gwartheg yn malu'r arwyneb; Llwybr 12 ac 14 angen eu torri; Beiciau modur yn cael eu gyrru o amgylch y llyn eto. Ffens wrth y giat mochyn wedi torri – awgrymu fod y cerrig mawr yn cael eu symud ychydig I gau'r bwlch a thorri o amgylch y giat mochyn; Atgoffa'r Diocese fod angen gwarchod y cerrig coffa a'u symud o'r eglwys cyn iddi gael ei gwerthu. **Llanllyfni** cyfarfod yn y pentref dydd Mercher – gwahodd Gwenan Tomos a swyddog arall o Gyngor Gwynedd I gyfrannu at y drafodaeth ar faterion parcio. **Nasareth** Gor-yrru o flaen y post – bysiau yn gor-yrru. Gofyn am arolwg. Gwair wedi ei dorri ar ochr y ffordd yn cael ei adael ac yn fwy na thebygol o fynd I mewn I gwterydd, felly pryder bydd hyn yn achosi mwy o wariant I Gyngor Gwynedd yn y pen draw.

13. **Llwybrau a Mynwentydd.** Gwastraff torri gwair – cwyn ei fod yn cael ei adael ar ol ar lwybr troed. Cysylltu efo'r contractwyr am hyn; Prosiect MacPelah – ebost Mark Balaam. Bydd yn cadarnhau dyddiad efo'r Cadeirydd unwaith mae wedi cael manylion yswiriant. Gofyn iddo gynnig dau neu dri dyddiad ac amser cyfleus; Edrychwyd ar daflen sydd wedi ei pharatoi ar gyfer rhannu I deuluoedd ar drefniant claddu ym mynwentydd y Cyngor Cymuned. Pawb yn hapus iawn efo'r bamffled, a phenderfynwyd gofyn am 200 ohonynt I'w rhoi I ymgymerwyr a gofyn wrthynt roi'r bamffled I'r teulu wrth drefnu angladd; Harry yn datgan fod y rhes gyntaf wedi gorffen ym mhlot newydd MacPelah – diolch I Iolo a Twm am 'leinio'r' rhes newydd; Chwyn yn rhan uchaf mynwent Llanllyfni yn yr hen ddarn. Penderfynwyd gadael cae Cwtin a pheidio a thorri'r ochrau.

14. **Materion yn ymweud a'r heddlu.** Yr heddlu yn mynychu cyfarfod Gorffennaf – materion Gor-yrru Nantlle a Nasareth, beiciau modur yn Talysarn, cyffuriau, niferoedd plismyn lleol a niferoedd plismyn Cymraeg.

15. **Materion ariannol.** Ffon/Rhyngwyd Clerc £25; Derbynebau Clerc. Cytuno.

16. **Ceisiaidau am arian** Dim